# Templed ar gyfer Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) – Rhan 1

| | |
|---|---|
| **Teitl a diben y polisi (amlinelliad cryno):** | **Gwella uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy’n derbyn gofal yng Nghymru. Nod y strategaeth ddrafft hon yw cadarnhau ein hymrwymiad i wella canlyniadau addysgol plant sy’n derbyn gofal ac amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer cyrhaeddiad addysgol plant sy’n derbyn gofal i’r dyfodol. Er nad yw’n golygu newid cyfeiriad, bydd yn cydgrynhoi ac yn atgyfnerthu ein disgwyliadau ynglŷn â sut mae gwasanaethau’n cefnogi a sicrhau gwelliant yng nghanlyniadau addysgol plant sy’n derbyn gofal.** |
| **Enw’r swyddog:** | **Jonathan Jones** |
| **Adran:** | **Addysg a Sgiliau** |
| **Dyddiad:** | **12 Rhagfyr 2014** |
| **Llofnod:** | |

**1. Rhowch ddisgrifiad cryno o'r polisi/penderfyniad.**

**Er enghraifft, beth yw amcan cyffredinol y polisi/penderfyniad, beth yw'r nodau (a phwy yw'r buddiolwyr bwriedig), disgrifiad eang o sut y cyflawnir hyn, sut y bydd llwyddiant yn cael ei fesur, a beth yw'r amserlen ar gyfer cyflawni hyn?**

Mae cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn parhau i fod yn gryn dipyn yn is o gymharu â'r boblogaeth ysgol brif ffrwd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno polisïau i wella eu canlyniadau, ond mae'r cynnydd hyd yma wedi bod yn araf ac rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb.

Mae'r strategaeth plant sy'n derbyn gofal yn gyd-gynhyrchiad rhwng Adran Addysg a Sgiliau ac Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Plant sy'n derbyn gofal yw'r buddiolwyr bwriedig. Nid yw'r strategaeth hon yn cynnwys plant mewn angen.

Nod cyffredinol y strategaeth hon yw helpu ysgolion a'u partneriaid allweddol i sicrhau bod y dysgwyr hyn yn cael eu helpu i gyrraedd eu potensial addysgol. Mae hyn yn atgyfnerthu ymrwymiad Gweinidogion i wella canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal fel rhan o'u lles ehangach.

Mae ein hamcanion fel a ganlyn:

- gwella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gofalu amdanynt
- atgyfnerthu arweinyddiaeth effeithiol ac atebolrwydd cyfunol ledled Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac uwch mewn perthynas â chanlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal
- sicrhau bod addysg yn parhau'n flaenoriaeth, hyd yn oed yn ystod y cyfnodau o newid ac ansicrwydd sy'n gallu digwydd ym mywyd plentyn sy'n derbyn gofal
- ystyried pa ddata pellach fydd yn helpu i lunio ymarfer, gwaith llunio polisïau a monitro canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal
- sicrhau bod arferion da yn cael eu nodi, eu hyrwyddo a'u rhannu fel sy'n briodol.

**Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro a mesur llwyddiant yn flynyddol trwy Gyfrifiad Plant mewn Angen Cymru ac yn cyhoeddi diweddariad blynyddol yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr ymrwymiadau yn y strategaeth i sbarduno gwelliant ym mhob cyfnod allweddol i blant sy'n derbyn gofal.**

2. **Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler Atodiad A canllawiau'r EIA) yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r polisi. Pa gamau ydych chi wedi'u cymryd i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol?**

**Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â'r holl randdeiliaid sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol neu anuniongyrchol dros blant sy'n derbyn gofal, mewn perthynas â'u haddysg a'u lles.**

**<u>Cynhaliwyd cyfarfodydd mewnol gyda'r canlynol</u>:**

**Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr**

**Grŵp Llywio Prosiect Mewnol sy'n cynnwys cydweithwyr trawsadrannol (5 cyfarfod)**

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**

**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (3 cyfarfod)**

**Cydweithwyr o'r AIGC**

**<u>Cynhaliwyd cyfarfodydd allanol gyda'r canlynol</u>:**

**Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS) (2 gyfarfod)**

**Estyn**

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) (2 gyfarfod)**

**Sefydliadau Addysg Uwch – CCAUC a CLASS Cymru**

**Sefydliadau Addysg Bellach – Colegau Cymru a Gyrfa Cymru**

**Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal (LACE) – 4 gweithdy rhanbarthol a llawer o gyfarfodydd un-i-un.**

**Swyddfa Archwilio Cymru**

**Y Rhwydwaith Maethu**

**Buttle Trust UK**

**Voices From Care**

**Rydym hefyd wedi cael sgyrsiau cychwynnol gyda Chomisiynydd Plant Cymru**

**3. Rhaid i'ch penderfyniadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Pa sail dystiolaeth ydych chi wedi'i defnyddio? Nodwch ffynhonnell y dystiolaeth hon e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru. Yn eich barn chi, a yw'r dystiolaeth yn gryf, yn foddhaol neu'n wan ac a oes unrhyw fylchau yn y dystiolaeth?**

**Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio Cyfrifiad Plant mewn Angen Cymru i fesur lefelau cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal (tystiolaeth gref).**

**Cyhoeddiadau ystadegol 'Mabwysiadau, Canlyniadau a Lleoliadau ar gyfer Plant sy'n derbyn Gofal Awdurdod Lleol, Cymru' i ddadansoddi bywydau newidiol plant sy'n derbyn gofal (tystiolaeth gref).**

**Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal (tystiolaeth gref).**

**Mae Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) Llywodraeth Cymru wedi'u defnyddio i ymchwilio i sut mae lleoliadau plant sy'n derbyn gofal yn effeithio ar eu cyrhaeddiad (tystiolaeth gref).**

**Rydym wedi trafod y materion sy'n ymwneud ag addysg a lles plant sy'n derbyn gofal gydag ymarferwyr megis Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal (LACE). Mae gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyfrifoldeb polisi arweiniol dros blant sy'n derbyn gofal, ac mae'n un o gyd-gynhyrchwyr y strategaeth ddrafft (tystiolaeth gref).**

**Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys dau ymrwymiad sy'n uniongyrchol berthnasol:**

- **helpu pawb i gyrraedd eu potensial, lleihau anghydraddoldeb a gwella lles economaidd a chymdeithasol**

- **gwella trefniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fel bod ganddynt fywydau mwy sefydlog.**

**Bydd y gwaith hefyd yn cefnogi darpariaeth yr amcanion canlynol sydd yng Nghynllun Busnes yr Adran Addysg a Sgiliau 2011-16:**

- **codi safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant, cyrhaeddiad a seilwaith ledled Cymru fel y gall pawb wireddu eu potensial.**
- **cefnogi unigolion, teuluoedd, cymunedau a busnesau i wella lles cymdeithasol ac economaidd yn ogystal â lleihau anghydraddoldeb drwy addysg a hyfforddiant.**

**Mae'n bwysig nodi unrhyw gyfleoedd *a allai wella neu hyrwyddo cydraddoldeb.***

**<u>Effaith</u>**

**Cwblhewch yr adran nesaf i ddangos sut y gallai'r polisi / penderfyniad / arfer hwn gael effaith (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar y grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (mae mwy o wybodaeth yn nogfen ganllawiau'r EIA).**

**Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros *beidio* â mynd ymlaen i gynnal EIA. Nodwch unrhyw fylchau rydych chi wedi'u gweld yn y dystiolaeth ac esboniwch a ydych chi'n bwriadu llenwi'r bylchau hyn ac, os felly, sut.**

**4.1 Ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran?**

| Oedran | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Pa fath o effaith? |
|---|---|---|---|---|
| Pobl iau<br>(*Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed*) | x | | | Mae'r strategaeth yn targedu plant sy'n derbyn gofal – o oedran ysgol gorfodol yn bennaf, ond mae hefyd yn cynnwys cymorth i bontio i |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | addysg uwch/bellach lle bo hynny'n berthnasol. |
| Pobl 18-50 oed | x | | | Bydd gwella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn creu cyfleoedd iddynt ffynnu fel oedolion ac mae'n lleihau'r tebygolrwydd yn sylweddol na fyddant mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET). |
| Pobl hŷn (50 oed a hŷn) | x | | | Bydd y manteision sy'n deillio o wella cyrhaeddiad addysgol yn aros gyda nhw gydol eu bywydau trwy greu amgylchedd ffyniannus y gallant fyw ynddo. |

**4.2 Oherwydd eu bod yn anabl?**

| Nam | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Pa fath o effaith? |
|---|---|---|---|---|
| Nam ar y golwg | | | x | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl ag anabledd. |
| Nam ar y clyw | | | x | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl ag anabledd. |
| Anabledd corfforol | | | x | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | pobl ag anabledd. |
| Anabledd dysgu | | | x | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl ag anabledd. |
| Problem iechyd meddwl | | | x | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl ag anabledd. |
| Problemau eraill | | | x | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl ag anabledd. |

**4.3 Oherwydd eu rhyw (dyn neu fenyw)?**

| Rhyw | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Pa fath o effaith? |
|---|---|---|---|---|
| Dyn | | | x | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl oherwydd eu rhyw. |
| Menyw | | | x | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl oherwydd eu rhyw. |

**4.4 Oherwydd eu bod yn drawsrywiol?**

| Trawsrywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Pa fath o effaith? |
|---|---|---|---|---|
| | | | **x** | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl oherwydd eu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | bod yn drawsrywiol. |

**4.5 Oherwydd eu priodas neu eu partneriaeth sifil?**

| Priodas a phartneriaeth sifil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Pa fath o effaith? |
|---|---|---|---|---|
| Priodas | | | **x** | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl oherwydd eu priodas neu eu partneriaeth sifil. |
| Partneriaeth sifil | | | **x** | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl oherwydd eu priodas neu eu partneriaeth sifil. |

**4.6 Oherwydd eu beichiogrwydd neu eu mamolaeth?**

| Beichiogrwydd a mamolaeth | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Pa fath o effaith? |
|---|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd | | | **x** | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl oherwydd eu beichiogrwydd. |
| Mamolaeth (y cyfnod ar ôl y geni) | | | | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | oherwydd eu mamolaeth. |

## 4.7 Oherwydd eu hil?

| Hil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Pa fath o effaith? |
|---|---|---|---|---|
| Pobl o leiafrifoedd ethnig e.e. Asiaidd, Du | | | x | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl oherwydd eu hil. Yn ôl yr ystadegau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ar 31 Mawrth 2014, roedd 175 o'r plant sy'n derbyn gofal yn gymysg eu hil, roedd 65 ohonynt yn Asiaidd neu'n Asiaidd/Prydeinig, roedd 45 ohonynt yn Ddu, roedd 50 ohonynt yn dod o grwpiau ethnig eraill ac roedd ethnigrwydd 170 ohonynt yn anhysbys. |
| Tarddiad Cenedlaethol (e.e. Cymru, Lloegr) | | | x | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl oherwydd eu hil.<br>Yn ôl yr ystadegau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ar 31 Mawrth 2014, roedd 5,250 o'r plant sy'n derbyn gofal yn wyn. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid | | | x | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl oherwydd eu hil.<br><br>Nid oes ystadegau ar gael ar gyfer y proffil hwn. |
| Sipsiwn a Theithwyr | | | x | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl oherwydd eu hil.<br><br>Nid oes ystadegau ar gael ar gyfer y proffil hwn. |
| Ymfudwyr | | | x | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl oherwydd eu hil.<br><br>Nid oes ystadegau ar gael ar gyfer y proffil hwn. |
| Eraill | | | x | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl oherwydd eu hil.<br><br>Nid oes ystadegau ar gael ar gyfer y proffil hwn. |

### 4.8 Oherwydd eu crefydd a'u cred neu eu diffyg cred?

| Crefydd a chred neu ddiffyg cred | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Pa fath o effaith? |
|---|---|---|---|---|
| Gwahanol grwpiau crefyddol, gan gynnwys Mwslimiaid, Iddewon, Cristnogion, | | | x | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl oherwydd eu crefydd, eu cred neu eu diffyg cred. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Sikhiaid, Bwdhyddion, Hindwiaid, eraill (nodwch) | | | | |
| Cred e.e. Dyneiddwyr | | | x | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl oherwydd eu crefydd, eu cred neu eu diffyg cred. |
| Dim cred | | | x | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl oherwydd eu crefydd, eu cred neu eu diffyg cred. |

**4.9 Oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol?**

| Cyfeiriadedd rhywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Pa fath o effaith? |
|---|---|---|---|---|
| Dynion hoyw | | | x | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol. |
| Lesbiaid | | | x | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol. |
| Deurywiol | | | x | Nid yw'r polisi hwn yn ceisio allgau pobl oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol. |

**4.10 Ydych chi'n credu y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl?** ***Darllenwch bwynt 1.4 yn Atodiad A i'r EIA – Canllawiau ar fwy o wybodaeth am Hawliau Dynol.***

| Hawliau Dynol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Pa fath o effaith? |
|---|---|---|---|---|
| Hawliau Dynol gan gynnwys y Ddeddf Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig | x | | | Mae'r polisi'n cefnogi nifer o'r erthyglau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. |

***Os ydych chi wedi nodi unrhyw effeithiau (heblaw rhai dibwys), yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar unrhyw grŵp â nodweddion gwarchodedig, cwblhewch Ran 2.***

***Dim ond os nad oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol, neu os yw'r effeithiau'n ddibwys, y dylech chi fynd yn syth i Ran 2 a chymeradwyo'r EIA.***

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 2

**1. Gan adeiladu ar y dystiolaeth a gasglwyd ac a ystyriwyd yn Rhan 1, ystyriwch y canlynol:**

**1.1 A yw'r polisi'n helpu i wella / hyrwyddo cyfle cyfartal ac, os felly, sut?**

Er enghraifft, mesurau cadarnhaol sy'n ceisio mynd i'r afael ag anfantais a chyrraedd gwahanol gymunedau neu grwpiau gwarchodedig?

| |
|---|
| Bydd plant sy'n derbyn gofal o oedran ysgol gorfodol yn cael budd o'r polisi hwn sy'n rhoi argymhellion pellach ar waith ar gyfer gwella eu cyrhaeddiad addysgol. |
| **1.2 A yw'r polisi / penderfyniad yn helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon ac, os felly, sut?** |
| Bydd y polisi hwn yn helpu i ddatblygu a hyrwyddo cyfle cyfartal trwy wella cyfleoedd cyflogaeth i blant sy'n derbyn gofal o ganlyniad i wella cyrhaeddiad addysgol. |
| **1.3 A yw'r polisi'n effeithio ar y gwaith o wella / hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach ac, os felly, sut?** |
| Bydd y polisi'n helpu i greu cymdeithas fwy cynhwysol lle bydd plant sy'n derbyn gofal yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd â'u cyfoedion o ganlyniad i wella cyrhaeddiad addysgol. |

**2. Cryfhau'r polisi**

| **2.1 Os yw'r polisi'n debygol o gael effaith negyddol ('effaith andwyol') ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig neu gysylltiadau da, beth yw'r rhesymau dros hyn?**<br><br>**Pa newidiadau/camau ymarferol allai helpu i leihau neu ddileu unrhyw effeithiau negyddol a nodir yn Rhan 1?** |
| --- |
| Amherthnasol |

| **2.2 Os na chymerir unrhyw gamau i ddileu neu liniaru effaith negyddol / andwyol, cyfiawnhewch pam.**<br><br>**(Cofiwch, os ydych chi wedi nodi gwahaniaethu anghyfreithlon (uniongyrchol neu bosibl) o ganlyniad i'r polisi, rhaid i'r polisi gael ei newid neu ei ddiwygio.)** |
| --- |
| Amherthnasol |

## 3. Monitro, gwerthuso ac adolygu

| **Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi?**<br><br>Rhowch fanylion unrhyw waith dilynol a gyflawnir mewn perthynas â'r |
| --- |

| |
|---|
| polisi (e.e. ymgynghoriadau, monitro penodol ac ati). |
| Bydd trefniadau monitro blynyddol yn cael eu rhoi ar waith trwy ddadansoddi canlyniadau Cyfrifiad Plant mewn Angen Cymru i nodi bylchau rhwng cyrhaeddiad addysgol plant sy’n derbyn gofal a disgyblion prif ffrwd a thrwy gyhoeddi diweddariad blynyddol yn amlinellu’r cynnydd a wnaed yn erbyn yr ymrwymiadau yn y strategaeth. |
| Bydd canlyniadau’r holl asesiadau effaith lle mae’r effaith yn sylweddol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. |
| Byddant |

**4. Datganiad**

***Dilëir fel sy’n briodol:**

**Nid yw’r polisi’n cael effaith sylweddol ar faterion cydraddoldeb**

| **Y swyddog sy’n cwblhau’r EIA** |
|---|
| Enw: |
| Stephen Gear |
| Adran: |
| Addysg a Sgiliau |
| Dyddiad: |
| 11 Rhagfyr 2014 |
| Llofnod: |
| |

| **Pennaeth yr Is-adran (Cymeradwyo)** |
|---|
| Enw: |
| |
| Teitl swydd ac adran: |
| |
| Dyddiad: |
| |
| Llofnod: |
| |
| Dyddiad adolygu: |